County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019, 4.30 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGOR 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Walker (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Henshaw, Lister, Mackie a/ac McKerlich |

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 Penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor**

Penodwyd y Cynghorydd David Walker yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r canlynol yn Aelodau'r pwyllgor yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 23 Mai 2019:

Y Cynghorwyr Berman, Bowen-Thompson, Henshaw, Lister, Mackie, McKerlich a Walker.

**3 Cylch Gorchwyl**

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 23 Mai 2019, cytunwyd ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad:

Craffu, monitro ac adolygu gweithrediad cyffredinol Rhaglen Gwella Caerdydd ac effeithiolrwydd gweithredu polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor yn gyffredinol, gan gynnwys:

- Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Busnes y Cyngor
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd
- Datblygu Polisïau Strategol
- Rhaglenni Strategol
- Cynllunio Cymunedau a Fforwm Gweledigaeth
- Cysylltiadau'r Sector Gwirfoddol
- Cynnwys ac Ymgysylltu â Dinasyddion
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Gwasanaethau Canolfan Gyswllt a Mynediad at Wasanaethau
- Polisi Rhyngwladol

- Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
- Cydraddoldeb
- Grantiau Corfforaethol a Chyllidol
- Datblygu Sefydliadol
- Rhaglen Effeithiolrwydd Caerdydd
- E-Lywodraeth
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Eiddo'r Cyngor
- Comisiynu a Chaffael
- Rheoli Carbon
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Craffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli a gweinyddu arian y Cyngor a'r defnydd o adnoddau dynol.

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cynnwys gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd Llywodraeth Cymru, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff anllywodraethol lledadrannol ar effeithioldeb y ffordd mae gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

**4 Datgan Buddiannau**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**5 Cofnodion** *(Tudalennau 5 - 10)*

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019 fel gwir gofnod.

**6 Strategaeth Gweithlu 2018-21** *(Tudalennau 11 - 76)*

Adolygu cynnydd o ran gweithredu Strategaeth Gweithlu'r Cyngor.

**7 Absenoldeb Salwch** *(Tudalennau 77 - 106)*

Diweddariad ar y sefyllfa gorfforaethol ac adolygu cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â lefelau salwch.

**8 Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-19** *(Tudalennau 107 - 136)*

Crynodeb o'r effaith y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19.

**9 Blaenraglennu Waith** *(Tudalennau 137 - 144)*

**10 Y Ffordd Ymlaen**

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd wrth ystyried pob eitem agenda, cytuno ar sylwadau, argraffiadau a phryderon yr Aelodau i'w cyfleu i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd, a nodi eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

**11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad fydd dydd Mercher 10 Gorffennaf 2019 am 4.30 pm

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 6 Mehefin 2019
Cyswllt: Kate Rees, 02920 872427, krees@caerdydd.gov.uk